**Adroddiad i'r:** **CABINET**

**Dyddiad:** **25 Mehefin 2013**

**Aelod Arweiniol Cabinet:** **Y Cynghorydd Eryl Williams**

**Swyddog Arweiniol:** **Angela Loftus – Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Teitl:** **Adolygu Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynigion i adolygu aelodaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol. Cytunodd y Cabinet ym mis Medi 2011 y dylid sefydlu Grŵp Llywio newydd er mwyn darparu arweiniad a chyfarwyddyd i symud y Cynllun Datblygu Lleol yn ei flaen trwy'r broses fabwysiadu ffurfiol ac i ganolbwyntio ar weithredu strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl ac Aelodaeth, a bu i'r grŵp gyfarfod y llynedd. Fodd bynnag, cydnabuwyd y bydd yn rhaid adolygu'r aelodaeth yn dilyn etholiadau mis Mai 2012 ac yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

1.2 Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar 4 Mehefin, mae'n bwysig bod Grŵp diwygiedig yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosib er mwyn darparu arweiniad gwleidyddol ar ddatblygu cyfres o Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol, briffiau datblygu a chynlluniau isadeiledd i hwyluso cyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn derbyn cymeradwyaeth yr Aelodau ar newid Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol, i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol a daearyddol.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ac aelodaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol (gwelwch Atodiad 1).

## 4. Cynigion i newid Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol

4.1 Prif swyddogaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol yw cefnogi darpariaeth a monitro parhaus ac adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd â chefnogi gweithredu Strategaeth y Cynllun. Bydd y Grŵp hefyd yn goruchwylio cynhyrchu cyfres o Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio sydd eu hangen i sicrhau bod polisïau yn cael eu gweithredu a bod budd cymunedol yn cael ei gyflawni. Mae gan y Grŵp swyddogaeth anweithredol ond bydd yn adrodd yn ôl ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet a/neu'r Cyngor yn ôl yr angen.

4.2 Mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig (gwelwch Atodiad 1) yn nodi'r trefniadau newydd ar gyfer aelodaeth.

4.3 Bydd nifer yr aelodau yn aros yr un fath (sef 12) ond ceisir cael cydbwysedd gwleidyddol a daearyddol. Unwaith y cytunir ar hyn, bydd pob Grŵp Aelodau Ardal yn enwebu 2 Aelod i gynrychioli eu hardal.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn chwarae rhan uniongyrchol o ran cyflawni blaenoriaethau 'Datblygu'r Economi Lleol' a 'Sicrhau Mynediad at Dai o Ansawdd' trwy'r polisïau a'r cynigion ynddo, gan ddylanwadu ar ddatblygu ar lawr gwlad. Prif swyddogaeth y Grŵp Llywio fydd goruchwylio cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol, gan alluogi'r ddarpariaeth o dai, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a diogelu'r amgylchedd trwy'r Sir.

## 6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does dim costau uniongyrchol ychwanegol yn sgil cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ac aelodaeth Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol.

## 7. Beth yw'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Mae templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd wedi ei atodi yn Atodiad 2 yr adroddiad. Mae hyn yn dod i'r casgliad nad oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y diwygiadau arfaethedig i Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Trafodwyd y cynigion yn ystod Brîff y Cabinet ar 3 Mehefin ac mae'r sylwadau yn llunio'r adroddiad hwn.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Fe ddylai cost cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol a sefydlu Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol fod o fewn yr adnoddau presennol. Mae'r Cyngor wedi bod yn cronni cronfa wrth gefn benodol o fewn y cyfrifon i gyfrannu at gost llunio'r Cynllun.

## 10 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae peidio â chytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer sefydlu Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys risg o ran na fydd arweiniad Aelod sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol ac i ddatblygu'r nodiadau cysylltiedig yn cael ei ddarparu.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 200, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), a'r rheoliadau a'r nodiadau cysylltiedig.

**Atodiad 1: Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol – Cylch Gorchwyl Diwygiedig (ynghlwm)**
**Atodiad 2: Templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb**